



Gofalwn Cymru

Yr ymgyrch denu, recriwtio a chadw
genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol
a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant

Y stori hyd yma...

Ein Blwyddyn Gyntaf



Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

1. Cefndir – pam cael ymgyrch genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar?

Mae gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac yn gwneud cyfraniad allweddol at gynnal llesiant ac annibyniaeth pobl. Mae tystiolaeth wedi dangos y bydd angen i'r gweithluoedd hyn dyfu i ateb y galw cynyddol am ofal a chymorth. Mae'r ffaith hon, ynghyd â'r canfyddiad o yrfaoedd yn y sectorau hyn a dealltwriaeth y cyhoedd ohonynt, yn creu her go iawn.

Ledled Cymru, mae gennym ddarlun amrywiol o'r ffordd mae gofal yn cael ei ddarparu a'i gefnogi, gyda thros 1,500 o gyflogwyr, 22 awdurdod lleol, saith rhanbarth ac ystod o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a chefnogi'r sectorau, roedd hi'n glir bod angen ymgyrch genedlaethol i fynd i'r afael â'r broses o ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr cyflogedig ar draws gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Byddai menter o'r fath yn sicrhau cysondeb yn y negeseuon a rennir â'r cyhoedd ac yn gweithredu fel angor i'r gweithgarwch cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.



Ffocws yr ymgyrch genedlaethol oedd:

- Codi proffil cadarnhaol gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Gwella'r canfyddiadau o ofal fel gyrfa a phroffesiwn gyda chyfleoedd i ddatblygu
- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r sectorau gofal a denu'r rhai â'r gwerthoedd priodol i'r gweithlu

Llwyddodd Gofal Cymdeithasol Cymru i gael gafael ar gyllid yn fewnol i ddatblygu ymgyrch ddwyieithog mewn partneriaeth â'r sector. O ystyried graddfa'r hyn y mae'r ymgyrch yn ceisio ei gyflawni, sefydlwyd cynllun tair i bedair blynedd i gwmpasu camau cyntaf y gwaith.



2. Datblygu gyda'r sector, ar gyfer y sector

Er mwyn galluogi ymgyrch o'r maint hwn i fod yn berthnasol ac yn gynaliadwy, mae angen cydweithrediad a chydberchnogaeth go iawn. O'r cychwyn cyntaf, mae rhanddeiliaid allweddol wedi cefnogi a llywio datblygiad y gwaith, a sefydlwyd Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid (rhestrir yr aelodaeth yn Atodiad 1) i gynghori ar gynnydd a chyfeiriad y gwaith. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys ystod eang o bartneriaid cenedlaethol a lleol allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth ranbarthol.

Buddsoddodd Gofal Cymdeithasol Cymru arian ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru er mwyn datblygu rôl Cysylltydd Gyrfaedd Gofal Rhanbarthol. Mae'r rôl hon yn gweithredu fel y cysylltiad allweddol rhwng yr ymgyrch genedlaethol a'r gweithgarwch rhanbarthol sy'n digwydd.

Mae partneriaeth go iawn yn allweddol i ymgyrch o'r maint hwn, nid yn unig i sicrhau bod yr arddull a'r negeseuon yn berthnasol i anghenion y sector, ond hefyd i alluogi'r holl rhanddeiliaid i ymrwymo a derbyn perchnogaeth. Felly, byddai angen i'r holl waith i'w ddatblygu fod â'i hunaniaeth a'i frand ei hun, gan alluogi eraill i'w fabwysiadu. Gan y bydd hi'n cymryd blynyddoedd i'r gwaith hwn gyflawni ei uchelgais, mae creu cydberchnogaeth yn allweddol i alluogi cynaliadwyedd tymor hir.

"Rwyf i wrth fy modd gyda fy swydd, wastad wedi bod. Yr hyn roeddwn i eisiau ei wneud oedd gweithio gyda phobl"

Tracey Marti-Smith, Uwch Swyddog Synhwyrdd

3. Creu'r ymgyrch

I reoli'r ymgyrch o fewn Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydlwyd tîm prosiect mewnol yn cynnwys swyddogion o bob rhan o'r sefydliad (yn cynnwys Gwella a Datblygu, Cyfathrebu, Cofrestriadau a Llywodraethu Corfforaethol). I gefnogi datblygiad yr ymgyrch, roedd angen arbenigedd penodol a chomisiynwyd Cowshed, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus greadigol â blynyddoedd lawer o brofiad yn y maes hwn, i gefnogi'r waith.

Cyn y gellid dechrau datblygu'r ymgyrch, roedd angen dealltwriaeth gadarn o'r dirwedd bresennol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio'r ymgyrch. Byddai hyn yn golygu cael gwybod beth oedd y cyhoedd yn ei feddwl o'r sector ac, yn bwysicach efallai, pam. I roi'r wybodaeth hon i ni, comisiynwyd arolwg meincnodi cyhoeddus er mwyn sefydlu hyn. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn ac arolygon ar-lein a chafwyd rhagor o wybodaeth drwy ddigwyddiadau megis yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol. Roedd canlyniadau o'r mewnwelediad pwysig hwn i ganfyddiadau'r cyhoedd yn helpu i lywio negeseuon yr ymgyrch, ac roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

Ni fyddai **36%** yn ystyried y blynyddoedd cynnar a gofal plant neu ofal cymdeithasol fel gyrfa

Mae **15%** yn cytuno bod swyddi ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gyfer pobl heb gymwysterau

Mae **51%** o'r farn ei fod yn talu'n wael a bod angen gweithio oriau hir.

Nid yw **26%** erioed wedi clywed unrhyw beth cadarnhaol am y blynyddoedd cynnar a gofal plant a gofal cymdeithasol

At hynny, daeth dwy neges allweddol trosfwaol o'r ymchwil sef nad yw'r cyhoedd yn deall ein sectorau (a'n terminoleg) ac nad ydynt yn deall yr amrywiaeth o rolau ac arbenigeddau sy'n bodoli yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Er mwyn sicrhau bod negeseuon yr ymgyrch wedi'u ffocysu ac yn gallu cael effaith, nodwyd pedwar grŵp targed allweddol, gan gynnwys:

Pobl ifanc
12-24

Rhieni
pobl ifanc

Teuluoedd
â phlant
ifanc

Pobl 45+ a oedd
wedi ymddeol
neu'n newid gyrfa

cowshed

Tueddiadau mewn Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 2018

Rhanbarth Powys (Powys)

Statws gwaith:

- 12% yn gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol gwybodaeth
- 13% yn gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol gwybodaeth

Gallai dealltwriaeth well o'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant arwain at welliant o 27% mewn agweddau cadarnhaol

24% YN Y RHANBARTH 17% YNG NGHYMRU

Rhestruau dros adael Gofal Cymdeithasol:

- Swyddi gwybodaeth
- Gwasithu gwybodaeth
- Cefnogi
- Arolygu
- Cymhellid
- Cymhellid

Rhestruau dros adael Gofal Cymdeithasol:

- Gofalgar
- Amgueddgar
- Cefnogi
- Cymhellid
- Cymhellid
- Cymhellid

Sector mwyaf deniadol i ddechreuwr newydd:

Gallian cynta

Nodweddion ydyd eu hangen ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant:

- 46% cymorth
- 21% cymorth
- 49% cymorth

Dau beth cadarnhaol wrth feddwl am:

Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant:

- 12% cymorth ychwanegol
- 11% help

Plan:

- 11% cymorth
- 5% gofalgar a chymwynasgar

Orddedol ydyd hys:

- 11% pobl yn cael help
- 15% cymorth

Rhestruau dros adael mewn Gofal Cymdeithasol:

- 11% gwybodaeth
- 11% gwybodaeth
- 11% gwybodaeth

Byddai 42% yn amgueddgar i weithio gyda phlant neu oedolion

Byddai 42% yn mynd yn ôl i swyddi mewn Gofal Cymdeithasol

Sector mwyaf deniadol i ddechreuwr newydd:

Gallian cynta

Er mwyn datblygu'r negeseuon cywir ar gyfer pob grŵp cynulleidfa allweddol, cynhaliwyd grwpiau ffocws a ymchwiliodd ymhellach i'r canfyddiadau o weithio ym maes gofal a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Yn ystod y sesiynau hyn, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol beth yr hoffent ei weld mewn hysbyseb a beth allai annog pobl i weithio yn y sector:

"...byddwch yn onest. Rydyn ni'n gwybod ei fod yn waith anodd, ond rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth yw'r manteision."

Yn seiliedig ar y canfyddiadau o'r grwpiau ffocws a'r astudiaeth o ganfyddiadau, datblygwyd y fersiynau cyntaf o'r gwaith creadigol. Roedd arddull y delweddau a'r hysbysebion prawf yn seiliedig ar arddull unigryw ar gyfer yr ymgyrch, heb ddefnyddio unrhyw ddelweddau na logos partner. Roedd hwn yn gam bwriadol i alluogi i'r ymgyrch gael ei gweld fel rhywbeth annibynnol a, thrwy ei niwtraliaeth, cael ei mabwysiadu ar lefel ranbarthol a lleol. Yn y cam hwn, datblygwyd dau lwybr. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar yr elfen 'pwy sy'n gofalu' ac yn cael ei wneud yn bersonol drwy benawdau megis 'Mae Mark yn Gofalu'. Roedd yr ail lwybr yn canolbwyntio ar yr her sy'n wynebu rôl o'r fath, 'Y swydd anoddaf', gan gydbwyso hynny â'r boddhad y gall rôl o'r fath ei roi.

Aeth y gwaith creadigol allan am brofion helaeth er mwyn cael dealltwriaeth o farn. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau, fforymau, profion ar y stryd a meysydd allweddol eraill er mwyn cael barn pobl am ba lwybr oedd yn teimlo'n fwy effeithiol a beth roedd angen i'r negeseuon ei ddweud.

Dywedodd adborth wrthym fod barn gref bod 'gofal' yn teimlo'n iawn fel thema graidd ac y gallai defnyddio 'Y swydd anoddaf' greu canfyddiadau negyddol a dieithrio'r sector, a'i fod yn peri pryder i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Yn seiliedig ar yr amrywiaeth eang o safbwyntiau a roddwyd i ni, datblygwyd fersiwn ddiwygiedig o'r gwaith creadigol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ofal ond yn gysylltiedig â Chymru yn hytrach nag unigolion, felly penderfynwyd ar Gofalwn Cymru fel y thema graidd. Mae'r gair 'gofal' ar ei ffurf puraf yn cael ei ddeall yn gyffredinol ar draws pob oedran, ac mae'n galluogi pobl i ddeall y neges yn gyflym ac ymgysylltu â'r ymgyrch. Dywedodd neges allweddol o'r gwaith ar ganfyddiad y cyhoedd nad oedd pobl yn gyffredinol yn deall beth a olygir gan ofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, felly roedd defnyddio'r gair 'gofal' yn ein galluogi ni i ddechrau cau'r bwlch hwn.



Profi'r ymgyrch yn greadigol:

Digwyddiadau, fel:

Sgiliau Cymru (Caerdydd a Llandudno)

334 o bleidleisiau / 104 o sylwadau

Sioe Frenhinol Cymru

600+ o ymwelwyr

Gweithdy Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol
30+ o gynrychiolwyr

Fforymau, fel:

- Fforwm Rheolwyr Hyfforddiant Cymru Gyfan
- Fforwm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Fforwm Rheolwyr Cofrestredig
- Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru
- Bwrdd Gweithlu Gofal a Chymorth yn y Cartref
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Ymgyrch
- Sesiynau ymarferwyr

Profion stryd:

- Caerdydd
- Abertawe
- Powys

4. Elfennau craidd yr ymgyrch:

Roedd angen amrywiaeth o elfennau ar yr ymgyrch Gofalwn Cymru i allu datblygu'r gwaith yn llawn. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu gwefan i fod yn ganolbwynt, straeon o'r sector yn amlygu rolau a'r hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd i weithio ym maes gofal a'r cyfryngau cymdeithasol gyda'r asedau priodol.

Gwefan (www.gofalwn.cymru)


Mae angen 'galwad i weithredu' ar yr holl waith creadigol ar gyfer yr ymgyrch, sef lle y gallai'r gwyliwr fynd iddo i ddysgu mwy. Yn yr achos hwn, gwefan fyddai'r llwybr hwnnw, felly datblygwyd gwefan gwbl hygyrch a dwyieithog. Roedd hwn yn gyfrwng i bobl edrych ar yr astudiaethau achos ysbrydoledig a darganfod rhagor o wybodaeth am yrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn ogystal â chysylltu pobl â chyflogwyr gofal.

Prif ffocws gwefan Gofalwn Cymru yw helpu i atgyfnerthu negeseuon yr ymgyrch a helpu'r ymwelydd i wella'i ddealltwriaeth o ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant a'r cyfleoedd sydd ar gael. Yn seiliedig ar gasgliadau'r astudiaeth o ganfyddiadau'r cyhoedd, roedd hi'n hanfodol bod gwefan ar gyfer yr ymgyrch yn glir ac yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r sectorau a'r rolau wrth i rywun edrych ar y tudalennau. Gan ddefnyddio hwn fel sail, rhannwyd y strwythur yn ddau lwybr:

- Gweithio gyda phlant
- Gweithio gydag oedolion


Datblygwyd maes pellach, 'Darpar gyflogwyr', a oedd yn galluogi cyflogwyr i arddangos manylion eu cwmni, gan gynnwys llwybrau cyswllt. Drwy gynnwys hyn, galluogwyd y gwyliwr i gysylltu â chwmnïau a allai fod â chyfleoedd cyflogaeth ac a allai hefyd roi cyngor pellach ar y cyfleoedd gyrfa niferus sydd ar gael. Cafodd yr ardal hon ei datblygu ymhellach i fod yn wefan sy'n dal porth swyddi. Roedd hyn yn galluogi lleoliadau gofal i hyrwyddo unrhyw swyddi gwag sydd ganddynt. Ar y dechrau, sefydlwyd y dull hwn mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19 yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd lefel y gweithgarwch a'r ymgysylltu yn ystod 2020/21, bydd yr ymagwedd hon yn dod yn rhan graidd o wefan Gofalwn Cymru, ac mae cynlluniau ar waith i wella ymarferoldeb y porth swyddi dros y flwyddyn nesaf.

Er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddefnyddio'r deunyddiau a gynhyrchwyd ar gyfer yr ymgyrch, datblygwyd rhan benodol o'r wefan, sef y Pecyn Cymorth Rhanddeiliaid. Roedd y pecyn cymorth hwn yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau a oedd yn berthnasol i fwrlwm penodol o weithgarwch megis datganiadau i'r wasg, asedau cyfryngau cymdeithasol ac, ymhellach ymlaen yn y flwyddyn, fideos a delweddau ffotograffig ychwanegol i'w lawrlwytho.



“Mae'n debyg mai angerdd yw'r peth pwysicaf pan fyddwch chi'n gweithio yn y sector hwn... Rwyf i eisïau cael effaith, rwyf i eisïau gwneud newid, rwyf i eisïau helpu...”

**Peter Hornjik,
Gweithiwr Gofal Plant
Preswyl**




“mae eu gwylio nhw'n tyfu a datblygu o fod yn fabis i fod yn blant annibynnol a hyderus pan fyddan nhw'n gadael ac yn mynd i'r ysgol, mae'n waith anhygoel.”

Amanda Calloway, Gwarchodwr Plant

Gwefan Gofalwn Cymru rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2020

49,749 o
ymwelwyr
unigryw



542 o ymwelwyr â'r
porth swyddi (yn ystod
yr wythnos gyntaf)

1:02 munud yn cael ei threulio ar y wefan ar gyfartaledd


391 o swyddi yn y
porth (yn ystod yr
wythnos gyntaf)



24 o
broffiliau
rôl

391 o gliciau ar
swyddi gwag yn
yr wythnos gyntaf

3,863 o gliciau ar
dudalennau cyflogwyr
yn ystod y flwyddyn



1,574 o gysylltiadau
â'r Pecyn Cymorth
Rhanddeiliaid



Straeon

Dywedodd ein holl waith ymchwil a chasglu gwybodaeth yng ngham cynllunio'r ymgyrch fod y cyhoedd am weld pobl go iawn yn ein hymgyrch, gan roi trosolwg gonest o'r rolau. Felly, roedd hi'n allweddol i lwyddiant yr ymgyrch bod delweddau a ffilmiau ar gyfer yr ymgyrch yn cynnwys ymarferwyr gwirioneddol sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â rhai o'r bobl y maent yn eu cefnogi. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn un dilys a chredadwy y gellir uniaethu â hi.

Roedd y ffilmiau'n adrodd straeon go iawn am bobl yn gweithio ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant ac o ystod eang o rolau. Roedd y straeon hyn yn helpu pobl i ddeall pwysigrwydd rolau o'r fath, nid yn unig i'r rhai y maent yn eu cefnogi ond i'r gweithwyr eu hunain hefyd. Drwy gyfrwng ffilm a ffotograffiaeth, fe wnaethom gipio pob stori unigol i'n helpu ni i ddechrau newid canfyddiadau pobl o weithio yn y sector gofal. Roedd yr asedau hyn yn dod â'r ymgyrch yn fyw.




Dros y flwyddyn gyntaf, fe wnaethon ni ffilmio 20 o astudiaethau achos a chipio cannoedd o ddelweddau ar gyfer yr ymgyrch. Roedd yr astudiaethau achos yn cwmpasu amrywiaeth eang o rolau sy'n dangos y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru. Helpodd casgliadau o'r arolwg meincnodi a ffynonellau data eraill ni i ganolbwyntio ar gipio straeon am y rhai hynny sy'n helpu i herio canfyddiadau o'r sector gofal, megis rolau i ddynion. Llwyddodd y straeon i dynnu sylw at faterion penodol hefyd, er enghraifft, pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gofal. Mae'r rolau a welwyd yn ein blwyddyn gyntaf yn cynnwys:

- Cynorthwyydd Gofal
- Gweithiwr Gofal
- Prif Swyddog Gweithredol
- Gwarchodwr Plant
- Hyfforddwr Cyfrifiadurol
- Rheolwr Hyfforddiant Craidd
- Gweithiwr Cymorth Cyfle yn ystod y Dydd
- Gweithiwr Cymorth Gwasanaeth yn ystod y Dydd
- Darlithydd y Blynnyddoedd Cynnar
- Pennaeth Gwasanaethau Plant
- Pennaeth Gwasanaeth
- Myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arweinydd Meithrinfa
- Gweithiwr Gofal Plant Preswyl
- Uwch Swyddog Synhwyrdd
- Rheolwr Gwasanaeth
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Gweithiwr Cymorth Ieuenctid

Ochr yn ochr â straeon yr astudiaethau achos, aethom ati hefyd i ddatblygu amrywiaeth o ffilmiau i gefnogi'r ymgyrch. Roedd y rhain yn cynnwys fideo yn cynnwys uchafbwyntiau o'n hastudiaethau achos mewn un ffilm, a chrëwyd dau fideo arall, un ar gyfer gofal cymdeithasol a'r llall ar gyfer y blynnyddoedd cynnar a gofal plant.

Y storïau mewn rhifau

120,007
y nifer o weithiau y
gwylwyd y fideo
o'r astudiaethau
achos yn unig



714,663 y nifer
o weithiau y
gwylwyd fideo ar
draws pob sianel

20 o straeon wedi'u ffilmio



Y Cyfryngau Cymdeithasol

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld tuedd gynyddol o ran y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Felly, os oeddem am gysylltu'n effeithiol â phobl, byddai angen i un llwybr fod drwy sefydlu sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr ymgyrch Gofalwn Cymru.

Gan ddefnyddio data ar y cyfryngau mwyaf poblogaidd, aethom ati i sefydlu cyfrifon YouTube, Facebook, Twitter ac Instagram. Byddai negeseuon yr ymgyrch yn cael eu teilwra i bob cyfrwng a'u datblygu ar gyfer y demograffig allweddol sy'n eu defnyddio. Sefydlwyd hashnodau hefyd i helpu i olrhain yr ymgyrch, cynnwys y grŵp a rhyngweithiadau a oedd yn cynnwys #GofalwnCymru / #WeCareWales a defnyddio'r hashnod Twitter #swyddigofalwncymru (#wecarewalesjobs) i gefnogi'r porth swyddi.

Gwelsom fod y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn arf effeithiol iawn i rannu'r negeseuon ac i gysylltu â phobl yn ystod pob un o weithgareddau'r ymgyrch. Daethom i'r casgliad hefyd nad oedd cynulleidfaoedd iau yn ymgysylltu'n gynnar gymaint ag yr oeddem wedi gobeithio, felly defnyddion ni Snapchat i gysylltu â'r demograffig hwn yn ddiweddarach yn yr ymgyrch.

Y cyfryngau cymdeithasol mewn rhifau

1,500+ o
ddefnyddiau
o'r hashnodau

5.5 miliwn o
gyrhaeddiad
cymdeithasol



3,938
o ddilynwyr
ar draws
pob cyfrwng

107,874
o ymgysylltiadau
uniongyrchol ar
draws pob cyfrwng

Adnoddau ychwanegol

Mae elfennau allweddol eraill wedi'u datblygu (gwefan, cyfryngau cymdeithasol, straeon ac ati) i gefnogi'r ymgyrch ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo Cwestiwn o Ofal (www.aquestionofcare.org.uk), sef y cwis rhyngweithiol ar-lein sy'n seiliedig ar werthoedd i archwilio rolau ym maes gofal. Rydym wrthi hefyd yn datblygu cardiau gyrfa a fydd yn helpu pobl, yn enwedig myfyrwyr, i gael syniad o'r holl rolau ym maes gofal. Yn ystod 2019-20, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) wrth gynnal digwyddiadau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth cynghorwyr gyrfaedd o'r gwasanaethau iechyd a gofal.

5. Cam un yr Ymgyrch – Lansio (Mawrth 2019)

Lansiwyd yr ymgyrch Gofalwn Cymru ar 5 Mawrth 2019, a chafodd sylw ar deledu cenedlaethol ar draws y BBC, ITV a chyfweiliadau ar S4C. Roedd y brif stori ar gyfer y lansiad yn canolbwyntio ar y ffaith bod angen 20,000 yn fwy o bobl i weithio ym maes gofal yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf. Y llinell yn y cyfryngau oedd:

“Angen miloedd yn fwy o weithwyr gofal yng Nghymru erbyn 2030

Bydd angen miloedd yn fwy o bobl i weithio mewn rolau gofalu gydag oedolion a phlant yng Nghymru erbyn 2030 er mwyn bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau gofal a darparu cymorth i gymunedau ledled y wlad.”

Rhannwyd yr ymgyrch hysbysebu ddigidol yn ddau faes allweddol; hyrwyddo gofal cymdeithasol a hyrwyddo gweithgareddau sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Datblygwyd hysbyseb radio hefyd a fyddai'n cael ei chwarae drwy lwybrau digidol megis radio DAX. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer y bobl a oedd cael eu denu i wefan Gofalwn Cymru yn sgil clywed yr hysbyseb radio yn isel iawn, gan ddangos nad oedd y llwybr hwn mor effeithiol â chyfryngau eraill ar hyn o bryd.

Hysbysebu y tu allan i'r cartref

Ochr yn ochr â'r agwedd ddigidol ar y lansiad, fe wnaethom hefyd sicrhau amrywiaeth o leoliadau y tu allan i'r cartref i hyrwyddo negeseuon yr ymgyrch. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cefn bysiau a leinwyr strydoedd yn y De a'r Gogledd
- Hysbysfyrddau
- Baner ar faes y Sioe Fawr
- Pympiâu gorsafoedd petrol (yn canolbwyntio ar leoliadau mwy gwledig)
- Hysbysebion mewn archfarchnadoedd

Helpodd y dull hwn i atgyfnerthu'r negeseuon y gallai'r cyhoedd fod wedi'u gweld drwy hysbysebion digidol ac erthyglau newyddion a dargedir. Gwnaeth rhanddeiliaid gyfraniad allweddol hefyd at y gwaith o gefnogi'r ymgyrch drwy ddefnyddio'r brand ar eu deunyddiau, eu digwyddiadau a'u gweithgareddau a'u cefnogi drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Llwyddodd lansiad yr ymgyrch i gyflawni lefel dda o ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cyfryngau. Gwelsom hefyd nifer sylweddol o safbwyntiau am y straeon a ddatblygwyd ar gyfer y lansiad gyda dros 87,000 o olygon yn ystod y cyfnod lansiad o chwe wythnos.

Cam un mewn rhifau

25.1 miliwn
cyrhaeddiad yr
ymgyrch

87,319 nifer
o weithiau y
gwyliwyd fideo


10 o
ddarllediadau'n rhoi
sylw i'r ymgyrch

2,530 wedi
hoffi'r ymgyrch
ar y cyfryngau
cymdeithasol

71 o erthyglau a
blogiau

16,623 o
ymgysylltiadau
ar y cyfryngau
cymdeithasol

12,003
nifer o ymweliadau
â'r wefan



6. Cam Dau'r ymgyrch - Wythnos Gofalwn Cymru (Medi 2019)

Canolbwyntiodd yr ail gam allweddol o weithgarwch yr ymgyrch ar gysylltu ac amlygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y saith rhanbarth yng Nghymru. Gwyddem hefyd ers y lansiad fod angen cryfhau cysylltiadau â chynulleidfaoedd iau.

Rydym yn gwybod bod pobl yn fwy tebygol o wrando ar yr hyn sydd gan eu cyfoedion i'w ddweud; rydym yn gwybod hefyd o'n trafodaeth grŵp ffocws gyda phobl ifanc bod angen i ni fachu eu sylw yn nhair eiliad gyntaf fideo. Datblygwyd cynnwys ein hymgyrch ymhellach ar gyfer y cam hwn er mwyn bachu sylw. Gwnaethom gynnwys graffeg liwgar a thrawiadol yn y fideos astudiaethau achos, cyflymu'r cyflymder a rhoi lle blaenllaw i'r negeseuon allweddol.

Canolbwyntiodd ein hastudiaethau achos ar y gallu i ennill cymwysterau wrth i chi weithio, gweithio yn eich cymuned leol a rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned.

I gyrraedd ein cynulleidfa darged, aethom ati i hysbysebu ar Snapchat, yn ogystal â defnyddio hysbysebion wedi'u targedu ar Facebook ac Instagram. Yn ystod lansiad Wythnos Gofalwn Cymru ym mis Medi 2019, cafodd pob rhanbarth yng Nghymru ddiwrnod penodol i amlygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ac i arddangos gweithgarwch.

I gefnogi'r gwaith, rhoddwyd cynnwys i'r rhanbarthau ei ddefnyddio ar eu cyfryngau cymdeithasol a rhannwyd eu gweithgarwch drwy gyfryngau Gofalwn Cymru.

Roedd yr wythnos yn gyfle gwych i arddangos y gweithgarwch sy'n digwydd ledled Cymru. Dangosodd adborth a dderbyniwyd ar ôl y digwyddiad agoriadol ddymuniad clir i'w ail-gynnal yn ystod 2020. Rydym wedi gwerthuso'r wythnos gyda'r rhanbarthau, ac un agwedd y gellid ei diwygio yw cymysgu rhanbarthau a'r diwrnodau, gan ganiatáu i bob un ymddangos ar sawl diwrnod. Bydd meysydd dysgu eraill yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer y math hwn o weithgarwch rhanbarthol.



"Yr hyn rwy'n ei garu am fy swydd yw nad oes byth ddau ddiwrnod yr un fath"

**Amy Davies,
Gweithiwr
Cymdeithasol**

**Cam dau
mewn rhifau**

26,162
nifer o weithiau
y gwylwyd
fideo

**31 o eitemau'n
rhoi sylw i'r
ymgyrch yn y
cyfryngau**

7,462 o
ymgysylltiadau
uniongyrchol

4,834
o gliciau ar
hysbysebion
gan bobl iau



Cam tri mewn rhifau

90,013
nifer o weithiau
y gwyliwyd
fideo

5,833 o
gliciau ar
hysbysebion

9,912 o
ymgysylltiadau
uniongyrchol

4,949
o ymweliadau
â'r wefan

7. Cam Tri'r ymgyrch – Amrywiaeth (Tachwedd/Rhagfyr 2019)

Cynhaliwyd trydydd cam ymgyrch Gofalwn Cymru ar ddiwedd 2019, ac mae'r ffocws ar gyfer y gweithgaredd pedair wythnos hwn yn cynnwys dwy agwedd; dynion yn y gweithlu; a'r Gymraeg wrth ddarparu gofal.

Mae data am y gweithlu yn dangos bod gan rolau megis gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal ac ati gyfran uchel o fenywod yn y gweithlu. Gwelir hyn ar draws y sectorau blyneddoddd cynnar a gofal plant, sy'n amlygu angen gwirioneddol i hyrwyddo dynion yn y gweithlu, er mwyn helpu i chwalu'r myth ei fod yn faes gwaith i fenywod.

Yn ail, mae'n glir y byddai siaradwyr Cymraeg yn aml yn ffafrio cael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, i rai dyma eu hunig iaith, felly mae'n fater o anghenraid yn hytrach na ffafriaeth. Felly, yn debyg i'r angen am fwy o ddynion yn y gweithlu, roedd angen i ni ganolbwyntio ar ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg i'r gweithlu presennol.

Canolbwyntiodd y straeon a gasglwyd ar gyfer y cam hwn ar ddynion a'r rheini sy'n darparu gofal a chymorth yn y Gymraeg.

"mae'r swydd yn rhoi boddhad mawr... Mae llawer mwy i'r gwaith na dim ond eu golchi nhw, eu newid nhw a'u helpu nhw i godi yn y bore. Mae'n deimlad mor wych i sefyll yno a gwylio pawb yn mwynhau eu hunain gymaint"

Mair Aubrey, Rheolwr Gwasanaeth

8. Cam Pedwar yr ymgyrch – Gyrfaoedd mewn Gofal (Mawrth 2020)

Dangosodd canlyniadau'r arolwg meincnodi ac adborth y grwpiau ffocws ganfyddiad cryf nad oedd llawer o bosibilrwydd camu ymlaen llawer yn eich gyrfa, os o gwbl, ym maes gofal. Ei bod yn cael ei gweld fel 'dim ond swydd'. Y ffocws ar gyfer pedwerydd cam yr ymgyrch fyddai ymgyrch pedair wythnos ym mis Mawrth 2020 i dynnu sylw at yrfaedd ym maes gofal ac arddangos cynnydd gyrfa a dangos y swyddi hyn fel gyrfaoedd proffesiynol.

Roedd astudiaethau achos a gasglwyd ar gyfer y gweithgarwch hwn yn arddangos yr elfennau hyn, gan gynnwys newid mewn gyrfa, ennill cymwysterau a hyfforddiant i adeiladu gyrfa i ymfalchïo ynddo. Datblygwyd asedau cyfryngau cymdeithasol, a diweddarwyd y pecynnau cymorth i randdeiliaid, fel gyda phob cam, i helpu partneriaid i rannu'r negeseuon.

I lansio'r cam hwn, cynhaliwyd digwyddiad dathlu yn arddangos y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf, gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, partneriaid o'n Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid a'r rhai a gafodd sylw yn straeon yr ymgyrch yn bresennol.

Roedd pedwerydd cam yr ymgyrch i fod i redeg tan ddiwedd mis Mawrth 2020 ond, o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, roedd angen gwneud newidiadau ar ôl yr ail wythnos (gweler adran 9 am fanylion).

**Cam pedwar
mewn rhifau**

410,710
nifer o weithiau
y gwyliwyd
fideo

9 o eitemau'n
rhoi sylw i'r
ymgyrch yn y
cyfryngau

20,026 o
ymgysylltiadau
uniongyrchol

7,915
o ymweliadau
â'r wefan



9. Cam pump yr ymgyrch – Covid-19 (o ganol mis Mawrth 2020)

Ers y pandemig Covid-19, mae'r ymgyrch Gofalwn Cymru wedi newid ffocws ac wedi datblygu adnoddau penodol i gyd-fynd â'r hinsawdd bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid ffocws negeseuon cyfryngau cymdeithasol Cam 4 yr ymgyrch
- Datblygu adnoddau fideo diolch
- Hysbyseb deledu
- Porth Swyddi

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, bu'r ffocws ar ddangos gwerthfawrogiad i'r gweithlu a helpu lleoliadau gofal yng Nghymru i lenwi eu swyddi gwag.



10. Y Camau Nesaf...

Bydd angen i'r ffocws ar gyfer ail flwyddyn yr ymgyrch Gofalwn Cymru roi cyfrif am yr effaith a'r newidiadau a wnaed yn ystod y pandemig Covid-19. Nid yw'r strategaeth hon wedi'i chwmpasu'n llawn eto, ond mae'n debygol y bydd angen iddi ganolbwyntio ar gynorthwyo'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i ailgychwyn yn dilyn y cyfyngiadau symud a chefnogi'r cynulleidfaoedd allweddol yn y sector gofal cymdeithasol. Mae meysydd eraill i'w harchwilio yn cynnwys canolbwyntio ar rolau penodol megis y rhai a nodwyd gyda rhanddeiliaid ac a gyflwynwyd fel straeon 'arwr' e.e. gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cymdeithasol.

Bydd gwaith yr ymgyrch Gofalwn Cymru yn defnyddio gwybodaeth ar draws Gofal Cymdeithasol Cymru a'r sector i helpu i fireinio a chanolbwyntio gweithgarwch a negeseuon. Rydym yn ail-gynnal yr arolwg meincnodi cyhoeddus, a bydd yr hyn a ddysgir o hyn yn allweddol o ran sefydlu barn a chanfyddiadau'r cyhoedd o weithio ym maes gofal ar hyn o bryd.

Yn ogystal, bydd angen ystyried gweithio gydag ysgolion, pan fydd y system addysg yn dychwelyd i fod yn gwbl weithredol. Byddwn hefyd yn archwilio rôl Llysgenhadon Gofalwn a sut y gallant helpu i gefnogi uchelgais yr ymgyrch. Hefyd, bydd ymgysylltiad pellach â chyflogwyr sy'n symud i flwyddyn 2 yn allweddol, yn enwedig pan ddechreuwn ni symud o'r cam denu i'r cam recriwtio a chadw (gweler y [Fframwaith Denu, Recriwtio a Chadw](#) i gael rhagor o fanylion am y gwaith ehangach hwn).

Bydd gweithio gyda'r Cysylltwyr Rhanbarthol (nawr gyda mwy o gyllid gan Gofal Cymdeithasol Cymru) yn allweddol wrth symud ymlaen i sicrhau bod y gwaith cenedlaethol yn cysylltu â gweithgarwch rhanbarthol.

11. Dysgu

Mae blwyddyn gyntaf ymgyrch Gofalwn Cymru wedi gweld llwyddiant anhygoel, lefelau uchel o ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cefnogi'r sector drwy'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid a nifer o bobl yn gwylio fideos ac yn ymgysylltu drwy wefan Gofalwn Cymru.

Mae pob cam wedi cyflwyno dysgu sydd wedi helpu i lywio'r cam nesaf a helpu i gynnal y momentwm wrth symud ymlaen i helpu'r cyhoedd i ddeall y sector gofal yn well a'i werthfawrogi hefyd.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i allu casglu a rhannu amrywiaeth eang o straeon ar draws y sectorau, gan dynnu sylw at y boddhad go iawn y gall gweithio ym maes gofal ei roi.

Mae'n amlwg bod llawer i'w wneud o hyd o ran cyflawni nodau terfynol yr ymgyrch, ond mae cynnydd mawr wedi'i wneud gyda chefnogaeth y sector. Gyda'n gilydd, dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn gobeithio sicrhau'r un parch tuag at weithio mewn gofal â'r hyn sy'n bodoli mewn sectorau eraill yng Nghymru.

Atodiad 1 – Aelodaeth y Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid

Sefydliad
Rhwydwaith Rheolwyr Hyfforddiant Cymru Gyfan
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)
Rhanbarth Caerdydd a'r Fro
Cennad Gofal
Fforwm Gofal Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Gyrfa Cymru
Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM)
Plant yng Nghymru
Clybiau Plant Cymru
Colegau Cymru
Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg
Adran Gwaith a Phensiynau / Canolfan Byd Gwaith
GMB
Rhanbarth Gwent
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (HEIW)
Mudiad Meithrin
Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
NDNA Cymru
Rhanbarth Gogledd Cymru
Pacey Cymru
Chwarae Cymru

Sefydliad

Rhanbarth Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)

UNISON

Unite

Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig (UKHCA)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

Llywodraeth Cymru (Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar)

Rhanbarth Gorllewin Morgannwg

Rhanbarth Gorllewin Cymru



Mehefin 2020

 [gofalwncymrucares](https://www.instagram.com/gofalwncymrucares)

  [@GofalwnCymru](https://twitter.com/GofalwnCymru)

Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales